Datganiad newyddion
13 Gorffennaf 2009

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cyllid Rhagori wedi gwella cynnydd ac ymgysylltiad disgyblion, ond angen mwy o dystiolaeth o'r effaith hirdymor ar safonau cyflawniad

Mae cyllid o fenter Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu disgyblion sydd dan anfantais economaidd a chymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, dywed adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o waith sy'n cael ei ariannu gan Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg) wedi gwella'u hyder a'u hunan-barch, yn aml o ganlyniad i'r sylw a'r cymorth ychwanegol y maent yn eu derbyn.

Dywedodd Meilyr Rowlands, AEM Rheoli, wrth siarad yn lansiad gwefan Rhagori Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghaerdydd, "Mae effaith Rhagori wedi bod yn arwyddocaol yn natblygiad medrau personol, dysgu a chymdeithasol disgyblion. Bellach mae angen i ni sicrhau bod gwaddol y cyllid yn cael effaith hir dymor ar wella safonau a pherfformiad."

Barnodd arolygwyr fod cynnydd disgyblion mewn gwaith wedi'i ariannu gan Rhagori o leiaf yn dda mewn tuag 80% o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, sef gwelliant clir ar y sampl ysgolion yr ymwelwyd â nhw y llynedd.

Er y cafodd y cyllid effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion dan anfantais sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u hariannu gan Rhagori, ni fu unrhyw newidiadau mawr ym mherfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn genedlaethol; eto, dywed

Arolygwyr efallai na fydd tystiolaeth o dueddiadau tymor hwy ar safonau i'w gweld tan 2009 neu'r tu hwnt.

Mae gan tua hanner y prosiectau Rhagori mewn ysgolion cynradd ganolbwynt unigol. Mae bron pob ysgol gynradd yn canolbwyntio ar lythrennedd, tra bod eraill yn targedu medrau cymdeithasol ac emosiynol neu rifedd. Mae gan y gwaith a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig fwy o amrywiaeth a chwmpas, yn bennaf oherwydd eu bod yn cael mwy o gyllid. Y dull mwyaf cyffredin mewn llawer o ysgolion uwchradd yw cael prosiectau penodol sy'n mynd i'r afael â chyfuniad o faterion fel ymddygiad, presenoldeb, llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol ac emosiynol. Dim ond ychydig ysgolion naill ai yn y sectorau cynradd ac uwchradd sy'n mabwysiadu dull mwy holistig neu gymunedol.

Mae adroddiad Estyn yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys rhoi strategaethau ar waith i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion breintiedig a disgyblion dan anfantais a defnyddio data'n fwy effeithiol er mwyn helpu i wella canlyniadau i ddisgyblion dan anfantais.

-DIWEDD-

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
02920 446454
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk

Nodiadau i Olygyddion:

Yr adroddiad

Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Effaith Rhagori 2008-2009 – Arfarniad o effaith cyllid Rhagori ar wella lefelau perfformiad disgyblion dan anfantais – Adroddiad ar drydedd flwyddyn y rhaglen' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/cy_ThematicReports.asp

- Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar ymweliadau â sampl gynrychioliadol o ysgolion ac awdurdodau lleol a dadansoddiad o ddata perthnasol. Ymwelodd arolygwyr â 25 ysgol gynradd, 13 ysgol uwchradd, tair ysgol arbennig ac wyth awdurdod lleol. Yn ystod ymweliadau ag ysgolion, bu arolygwyr yn cyfweld ag athrawon ac arweinwyr, yn bwrw

golwg ar y dystiolaeth a ddarparwyd, yn ystyried gwaith disgyblion ac yn siarad â nhw am eu gwaith.

Ynghylch Estyn

- Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, tîm a lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod gyfan o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.